**Parau cyflym hyd at 10**

Gwnewch set o 12 cerdyn sy’n dangos y rhifau 0 i 10, gyda dau rif 5. Os hoffech, gallech ddefnyddio cardiau chwarae.


- Shifflwch y cardiau a’u rhoi i’ch plentyn.
- Amserwch faint o amser mae’n cymryd i ddod o hyd i’r holl barau i 10.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 0 | 10 | 2 | 8 | 4 | 6 |
| 1 | 9 | 3 | 7 | 5 | 5 |

Ailadroddwch hyn yn ddiweddarach yn yr wythnos.  Tybed a fydd eich plentyn yn gallu curo’r amser blaenorol?


**Beth yw’r siâp?**

- Meddyliwch am siâp 2-D (triongl, cylch, petryal, sgwâr, pentagon neu hecsagon). Gofynnwch i’ch plentyn ofyn cwestiynau i geisio dyfalu beth ydyw.
- Gallwch ateb *Ie* neu *Na*. Er enghraifft, gallai’ch plentyn ofyn:*Oes 3 ochr ganddo?* neu: *Ydy’r ochrau yn syth?*
- Ceisiwch weld a yw eich plentyn yn gallu dyfalu’r siâp gan ddefnyddio llai na phum cwestiwn.
- Gofynnwch iddyn nhw ddewis siâp a chithau’n gofyn cwestiynau y tro hwn.



# Targedau i ddisgyblion Blwyddyn 2

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn




## Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plentyn

# Targedau – Blwyddyn 2 

**Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o blant yn gallu …**

- [ ] Cyfrif hyd at 100 o leiaf, a darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 100.
- [ ] O gael unrhyw chwe rhif hyd at 100, eu rhoi mewn trefn.
- [ ] Cyfrif ymlaen ac yn ôl fesul un neu fesul deg o unrhyw rif dau ddigid, e.e. *dau ddeg chwech, tri deg chwech, pedwar deg chwech …*
- [ ] Adnabod odrifau ac eilrifau.
- [ ] Adio a thynnu rhifau dan 20 yn eu pen.
- [ ] Gwybod parau rhif 'degau' sy'n gwneud 100, e.e. 30 + 70.
- [ ] Dyblu a haneru rhifau bach, e.e. dwbl 9 yw 18, a hanner 18 yw 9.
- [ ] Gwybod tabl 2, 5 a 10 ar eu cof.
- [ ] Cyfrifo cyfanswm gwerth llond dwrn o ddarnau arian hyd at £1.
- [ ] Mesur neu bwyso gan ddefnyddio metrau, centimetrau, cilogramau neu litrau.
- [ ] Defnyddio pren mesur i dynnu a mesur llinellau i'r centimetr agosaf.
- [ ] Dweud faint o'r gloch yw hi i'r hanner awr a chwarter awr.
- [ ] Enwi a disgrifio siapiau 2-D a 3-D cyffredin.
- [ ] Datrys problemau rhif syml, ac egluro eu dull gweithio.

## Y targedau


Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai eich plentyn allu eu gwneud erbyn diwedd Blwyddyn 2.

Mae rhai o'r targedau yn fwy anodd mewn gwirionedd, e.e. efallai y bydd plant sy'n gallu cyfrif hyd at 100 yn dal i gael trafferth i ddweud beth sy'n dod ar ôl 47 neu pa rif sy'n dod o flaen 50.

## Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

### Rhifau ceir

- Mae pob person yn dewis rhif targed, e.e. 15.
- Sawl rhif car allwch chi eu gweld yn sydyn gyda 3 digid sy'n adio i wneud eich rhif targed, e.e. K456 XWL.
- Felly mae 4 + 5 + 6 = 15, bingo!



### Tynnu ffa

Ar gyfer y gêm hon bydd angen dis

a rhywfaint o ffa sych neu fotymau.

- Dechreuwch â'r pentwr ffa yn y canol. Cyfrwch nhw.
- Taflwch ddis. Dwedwch faint o ffa fydd ar ôl wrth dynnu'r rhif hwnnw.
- Yna tynnwch y ffa a gwiriwch os ydych yn iawn!
- Ewch ymlaen â'r chwarae.
- Y person sy'n cymryd y ffa olaf sy'n ennill!